# 18: Y TRYDYDD YMADRODD – Dy Fab/Dy Fam

**Darllen:** Ioan 19: 25-27

Symudodd ei ofal oddi wrth y lleidr oedd yn marw gydag ef at y rhai fu'n cyd-fyw ag ef. Wrth ochr ei fam wrth droed y groes safodd Ioan, ei gyfaill pennaf. Druan o Mair, oni proffwydodd Simeon: '*Trywenir dy enaid di gan gleddyf'* (Luc 2: 35)? Bu cleddyf yn ei chalon mor aml wrth iddi gael ei gorfodi i wrando ar gydymdeimlad maleisus ei chymdogion am fod ei mab wedi anghofio ei gyfrifoldeb fel y mab hynaf tuag ati hi a gweddill y teulu a mynd i ffwrdd i grwydo'r wlad. Daeth â gwarth ar ei phen wrth ddweud yn gyhoeddus: '*Pwy yw fy mam?... yr un sy'n gwneud ewyllys fy nhad yn y nefoedd.'* Yn awr, rhaid iddi sefyll wrth ei groes gyda chroes arall yn ei chalon; unigrwydd mam yn galaru am ei phlentyn yn marw yn y fath fodd. Wrth ei hochr safodd ei gyfaill agosaf, Ioan, '*y disgybl y bu yn ei garu'*. Edrychodd arnynt gyda thosturi: '*Dyma dy fab… dyma dy fam*.' Rhoddodd y naill i ofal y llall, fel anrhegion, gan greu cyfle iddynt ddefnyddio eu cariad ato ef i garu ei gilydd. Mae'r ddau i rannu'r galar a'r cofio, y gobaith a'r llawenydd a'r tangnefedd - ei roddion ef iddynt. Oni ddywedodd y mab a'r cyfaill oedd yn awr ar y groes: *"Yn wir rwy'n dweud wrthych, nid oes neb a adawodd dw' neu frodyr neu chwiorydd neu fam neu dad neu blant neu diroedd er fy mwyn i ac er mwyn yr Efengyl, na chaiff dderbyn ganwaith cymaint yn awr yn yr amser hwn, yn dai a brodyr a chwiorydd a mamau a phlant a thiroedd, ynghyd ag erledigaethau, ac yr oes sy'n dod, fywyd tragwyddol*" (Marc 10: 29-30). Onid darlun Crist o'i eglwys sydd yma? – teulu newydd, teulu gras a ffydd: "*Os bydd gennych gariad tuag at eich gilydd, wrth hynny y bydd pawb yn gwybod mai disgyblion i mi ydych*." (Ioan 13: 35).

**Gweddi:**

*Dduw grasusol a thragwyddol,*
*edrych yn dy drugaredd ar dy deulu*
*y bu ein Harglwydd Iesu Grist yn fodlon cael ei fradychu er ei fwyn,*
*a'i roi yn nwylo pechaduriaid a dioddef angau'r groes;*
*ac y mae'n fyw ac yn cael ei ogoneddu gyda thi*
*yn undod yr Ysbryd Glân, un Duw, yn awr a hyd byth. Amen.*